OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 3368

# Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) (Cymru) 2005

## RHAN 4

Gweinyddu a Gorfodi yn Gyffredinol

**Hysbysiadau a gorchmynion gwahardd brys busnes bwyd anifeiliaid**

**22.**—(1) Os yw swyddog awdurdodedig o awdurdod gorfodi yn fodlon bod yr amod ynglŷn â risg i iechyd wedi'i fodloni mewn perthynas ag unrhyw fusnes bwyd anifeiliaid caiff y swyddog drwy gyflwyno hysbysiad i weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid perthnasol (y cyfeirir ato yn y Rheoliadau fel "hysbysiad gwahardd brys busnes bwyd anifeiliaid") osod y gwaharddiad priodol.

(2) Os yw llys ynadon yn fodlon, ar ôl i'r cyfryw swyddog wneud cais, fod yr amod ynglŷn â risg i iechyd wedi'i fodloni mewn perthynas ag unrhyw fusnes bwyd anifeiliaid, mae'n rhaid i'r llys, drwy orchymyn (y cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn fel "gorchymyn gwahardd brys busnes bwyd anifeiliaid") osod y gwaharddiad priodol.

(3) Ni chaiff y cyfryw swyddog o'r fath wneud cais am orchymyn gwahardd brys busnes bwyd anifeiliaid oni chyflwynodd y swyddog, o leiaf ddiwrnod cyn dyddiad y cais, hysbysiad i weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid perthnasol o'i fwriad i wneud cais am y gorchymyn.

(4) Mae paragraffau (2) a (3) o reoliad 21 yn gymwys at ddibenion y rheoliad hwn, fel y maent yn gymwys at ddibenion y rheoliad hwnnw ond fel pe bai'r cyfeiriad ym mharagraff (2) at risg o niwed i iechyd yn gyfeiriad at risg ar fin digwydd i iechyd.

(5) Cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl cyflwyno hysbysiad gwahardd brys busnes bwyd anifeiliaid, mae'n rhaid i swyddog awdurdodedig o awdurdod gorfodi osod copi o'r hysbysiad mewn man amlwg ar y cyfryw fangre a ddefnyddir at ddibenion y busnes bwyd anifeiliaid ag y cred y swyddog sy'n briodol; a bydd unrhyw berson sy'n torri'r cyfryw hysbysiad gan wybod ei fod yn gwneud hynny yn euog o dramgwydd

(6) Cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl i orchymyn gwahardd brys busnes bwyd anifeiliaid gael ei wneud, mae'n rhaid i swyddog awdurdodedig o awdurdod gorfodi—

(a) cyflwyno copi o'r gorchymyn i weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid perthnasol; a

(b) gosod copi o'r gorchymyn mewn man amlwg ar y cyfryw fangre a ddefnyddir at ddibenion y busnes bwyd anifeiliaid ag y cred y swyddog sy'n briodol,

a bydd unrhyw berson sy'n torri'r cyfryw orchymyn gan wybod ei fod yn gwneud hynny, yn euog o dramgwydd.

(7) Bydd hysbysiad gwahardd brys busnes bwyd anifeiliaid yn peidio â bod yn effeithiol—

(a) oni wneir cais am orchymyn gwahardd brys busnes bwyd anifeiliaid o fewn y cyfnod o dri diwrnod yn dechrau gyda chyflwyno'r hysbysiad, i ddiwedd y cyfnod hwnnw; neu

(b) os gwneir cais o'r fath felly, ar ôl i lys benderfynu ar y cais yn derfynol neu ar ôl terfynu'r cais.

(8) Bydd hysbysiad gwahardd brys busnes bwyd anifeiliaid neu orchymyn gwahardd brys busnes bwyd anifeiliaid yn peidio â bod yn effeithiol ar ôl i'r awdurdod gorfodi ddyroddi tystysgrif i'r perwyl ei fod yn fodlon bod gweithredwr y busnes bwyd anifeiliaid wedi cymryd camau digonol i sicrhau nad yw'r amod ynglŷn â risg i iechyd wedi'i fodloni mwyach mewn perthynas ag unrhyw fusnes bwyd anifeiliaid.

(9) Mae'n rhaid i'r awdurdod gorfodi ddyroddi tystysgrif o dan baragraff (8) o fewn tri diwrnod ar ôl bod yn fodlon fel y cyfeirir ato yn y paragraff hwnnw; ac ar ôl i weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid wneud cais am dystysgrif o'r fath, mae'n rhaid i'r awdurdod—

(a) penderfynu cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol a sut bynnag o fewn 14 diwrnod p'un a yw wedi'i fodloni felly ai peidio; a

(b) os yw'n penderfynu nad yw wedi'i fodloni felly, hysbysu gweithredwr y busnes bwyd anifeiliaid o'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

(10) Pan fo hysbysiad gwahardd brys busnes bwyd anifeiliaid yn cael ei gyflwyno i weithredwr busnes bwyd anifeiliaid, mae'n rhaid i'r awdurdod gorfodi ddigolledu'r gweithredwr mewn perthynas ag unrhyw golled a gafwyd am fod y gweithredwr wedi cydymffurfio â'r hysbysiad—

(a) oni wneir cais am orchymyn gwahardd brys busnes bwyd anifeiliaid o fewn y cyfnod o dri diwrnod yn dechrau gyda chyflwyno'r hysbysiad; a

(b) oni bai bod y llys yn datgan ei bod yn fodlon, ar ôl gwrando'r cais, fod yr amod ynglŷn â risg i iechyd wedi'i fodloni mewn perthynas â'r busnes bwyd anifeiliaid pan gyflwynwyd yr hysbysiad,

a phenderfynir ar unrhyw anghydfod ynglŷn â'r hawl i unrhyw ddigollediad neu swm y digollediad sy'n daladwy o dan y paragraff hwn drwy gymrodeddu.